# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 6**

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Gadael gofal, llety a maethu*

**107 Asesiadau a chynlluniau llwybr: cyffredinol**

(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 1 gynnal asesiad o anghenion y person ifanc gyda golwg ar ddyfarnu pa gyngor a chymorth arall y byddai'n briodol iddo eu darparu i'r person ifanc o dan y Rhan hon—

(a) tra bo'r awdurdod yn dal i ofalu amdano, a

(b) wedi iddo roi'r gorau i ofalu amdano.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 2 neu gategori 3 nad oes ganddo gynllun llwybr eisoes, gynnal asesiad o anghenion y person ifanc gyda golwg ar ddyfarnu pa gyngor a chymorth arall y byddai'n briodol iddo eu darparu i'r person ifanc o dan y Rhan hon.

(3) Ar ôl cynnal asesiad o dan is-adran (1) neu (2), rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynllun llwybr a'i gynnal cyhyd ag y bydd y person ifanc yn dod o fewn categori 1, 2 neu 3 (ond gweler is-adran (12)).

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 4 gynnal asesiad o anghenion y person ifanc gyda golwg ar ddyfarnu pa gyngor a chymorth arall (os oes cyngor a chymorth arall) y byddai'n briodol iddo eu darparu i'r person ifanc o dan y Rhan hon.

(5) Wrth gynnal asesiad o dan is-adran (4), caiff yr awdurdod lleol ystyried unrhyw ddyletswydd a all fod ganddo i wneud taliad i'r person ifanc o dan adran 112(2).

(6) Ar ôl cynnal asesiad o dan is-adran (4), rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynllun llwybr.

(7) Mae cynllun llwybr yn gynllun sy'n nodi—

(a) yn achos cynllun ar gyfer person ifanc categori 1—

(i) y cyngor a'r cymorth arall y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu darparu i'r person ifanc o dan y Rhan hon, tra bydd yn gofalu amdano ac wedi hynny, a

(ii) pryd y byddai, o bosibl, yn rhoi'r gorau i ofalu amdano;

(b) yn achos cynllun ar gyfer person ifanc categori 2, categori 3 neu gategori 4, y cyngor a'r cymorth arall y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu darparu i'r person ifanc o dan y Rhan hon;

(c) unrhyw faterion eraill (os oes rhai) a bennir mewn rheoliadau.

(8) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth o ran asesiadau at ddibenion yr adran hon.

(9) Caiff y rheoliadau, er enghraifft, wneud darpariaeth ynglŷn â'r canlynol—

(a) y personau y dylid ymgynghori â hwy mewn perthynas ag asesiad;

(b) sut mae asesiad i'w gynnal, gan bwy a phryd;

(c) cofnodi canlyniadau asesiad;

(d) yr ystyriaethau y mae'r awdurdod lleol i roi sylw iddynt wrth gynnal asesiad.

(10) Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun llwybr yn gyson (ond gweler is-adrannau (12) a (13)).

(11) Caiff yr awdurdod lleol gynnal asesiad neu adolygiad o dan yr adran hon ar yr un adeg ag unrhyw asesiad neu adolygiad arall o anghenion y person ifanc.

(12) Yn achos person ifanc categori 3, mae'r dyletswyddau o dan is-adrannau (3) a (10) yn ddarostyngedig i adran 111.

(13) Yn achos person ifanc categori 4, mae'r ddyletswydd o dan is-adran (10) yn ddarostyngedig i adran 113.